## Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr

## Crynodeb Gweithredol

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad gwirioneddol i ymgysylltu â goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth ffurfio ein gwaith cysylltiedig. Mae rôl goroeswyr yn natblygiad gwaith polisi eleni wedi bod yn amhrisiadwy. Rydym yn benderfynol o barhau i weithio'n glos â goroeswyr o bob cwr o Gymru i ddatblygu fframwaith cenedlaethol cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr. Mae'n cyflwyno'r dysgu cefndir a'r dystiolaeth sy'n sail i'r gwaith hwn, ynghyd â chyfres o opsiynau ar gyfer ei weithredu. Rydym yn croesawu barn goroeswyr trais yn erbyn menywod, trais arall ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a barn y mudiadau hynny sy'n gweithio â goroeswyr, ar gynnwys y ddogfen hon ac, yn benodol, y cwestiynau canlynol:

1. Beth yw eich barn ar yr opsiynau a gynigir yn y ddogfen hon fel dulliau i fwrw ymlaen â strategaeth genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr?

*Pa opsiynau a ffefrir gennych a pham?  Sut fyddech chi'n cyfuno'r opsiynau?*

2. Pa drefniadau ychwanegol a hoffech chi weld Llywodraeth Cymru yn eu hystyried ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr i ddibenion datblygu polisi?

*A oes modelau ymarfer eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried? Pa opsiynau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?*

3. Ym mha ffordd hoffech chi weld goroeswyr yn ymgymryd gweithgarwch cyfathrebu, eiriolaeth ac addysg o fewn rhanbarthau neu awdurdodau lleol?

*A oes modelau ymarfer eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried? Pa opsiynau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?*

***Gofynnir i chi anfon ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn erbyn 12pm ar 3 Mai 2018 i*** VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@gov.wales

## 1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru am weld lleisiau a phrofiadau goroeswyr yn elfen ganolog o'r broses o ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth, polisïau a strategaethau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Genedlaethol, ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021) i ddatblygu fframwaith cenedlaethol cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

**Diben Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr**

Diben Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr yw sicrhau bod anghenion a phrofiadau goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys y goroeswyr sydd wedi'i hymyleiddio fwyaf, y rhai sy'n wynebu anfanteision lluosog wrth gael cymorth a chefnogaeth, yn hysbys. Mae'n bwysig hefyd bod y rhai mae'r polisi'n cael ei lunio ar eu cyfer, yn gallu dylanwadu ac arwain y polisi hwnnw a rhannu'r hyn sy'n gweithio iddynt hwy.

Mae ymgysylltu â goroeswyr wedi dod yn weithgarwch mwy cyffredin gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae wedi digwydd mewn cyd-destunau penodol ac mae tuedd iddo ymwneud ag un gweithgarwch polisi yn unig; datblygiad y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, creu'r Strategaeth Genedlaethol neu ymgyrchoedd yn y cyfryngau, er enghraifft.

Mae rhai enghreifftiau da o fodelau rhanbarthol neu leol i ymgysylltu â goroeswyr ond dim sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol i oleuo polisi cenedlaethol y Llywodraeth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nid oes ychwaith unrhyw raglenni cenedlaethol, ffurfiol sy'n hwyluso rôl goroeswyr i addysgu eu cymunedau, i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn, neu i eiriol ar eu rhan eu hunain. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y gweithgarwch hwn yn gallu cryfhau gweithgarwch cenedlaethol cyfatebol sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth neu addysgu'r cyhoedd. Bwriedir i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr roi sylw i'r diffygion hyn.

**Beth sydd ei angen?**

Mae angen fframwaith ffurfiol, cenedlaethol, cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr i sicrhau bod goroeswyr, tystion ac eraill a effeithir yn dylanwadu ar waith y Llywodraeth mewn cysylltiad â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Rhaid i'r fframwaith ymgysylltu â goroeswyr wneud y canlynol (o leiaf):

- cynnwys amrywiaeth eang o oroeswyr, tystion ac eraill a effeithir, sy'n cynnwys cynrychiolaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig a'r rhai ag anghenion cymhleth sydd â sawl agwedd arnynt;

- bod yn broses barhaus sy’n creu dialog rhwng y Llywodraeth, goroeswyr, tystion ac eraill a effeithir gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol lawn ar draws Cymru;
- cynhyrchu mewnbynnau ac allbynnau ffurfiol sy’n fesuradwy; ac
- integreiddio â’r gwaith ymgysylltu â dinasyddion sy’n digwydd eisoes, fel “Cymru Ifanc” neu’r Comisiynydd Pobl Hŷn.

## 2. <u>Datblygu fframwaith cenedlaethol ffurfiol, cenedlaethol, cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr</u>

Er mwyn datblygu dull effeithiol o ymgysylltu, mae’n bwysig ystyried y canlynol:

- Pa ymchwil sydd ar gael ar ymgysylltu â goroeswyr?
- Beth yw barn goroeswyr ar sut yr hoffent ymgysylltu â’r Llywodraeth.
- Pa ymarfer da sy’n bodoli yng Nghymru?
- Pa waith newydd sydd ei angen i gyflawni amcanion ymgysylltu cryf â rhanddeiliaid ar lefel y Llywodraeth?

Mae gweddill y papur yn rhoi sylw i bob un o’r cwestiynau hyn ac mae’n edrych ar yr opsiynau posibl i lansio gwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr a fydd yn cychwyn ym mlwyddyn ariannol 2018-2019.

### Pa ymchwil sydd ar gael ar waith ymgysylltu â goroeswyr?

Cafodd adolygiad llenyddiaeth ei gomisiynu i ganfod y rhwystrau a’r galluogwyr o ran ymgysylltu’n llwyddiannus â goroeswyr ac i roi sylw i’r cwestiynau canlynol:

- I ba raddau mae fforymau / arferion ymgysylltu â goroeswyr yn hwyluso ac yn hyrwyddo lleisiau a barn goroeswyr yn effeithiol?
- Beth mae’r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am effeithiolrwydd fforymau ymgysylltu / cynnwys goroeswyr i ddylanwadu ar newid mewn polisi?
- Beth mae’r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am ble a sut all llywodraeth fod fwyaf effeithiol i hwyluso ymgysylltu / cynnwys llais goroeswyr?

Mae canfyddiadau’r adolygiad llenyddiaeth wedi’u crynhoi isod ac mae pwyntiau allweddol wedi’u hymgorffori o fewn y ddogfen hon. Mae fersiwn lawn ar gael ar gais.

Mae ystod o weithgarwch ymgysylltu â goroeswyr yn digwydd i nifer o ddibenion ledled Cymru. Mae fforymau trais domestig rhyngasiantaethol o weithwyr proffesiynol yn bod yn y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd yn y DU i ddwyn ynghyd asiantaethau o’r sectorau statudol a gwirfoddol i adeiladu polisi ac ymarfer da. Mae fforymau goroeswyr trais domestig yn wahanol ac, er eu bod i’w cael ar sawl ffurf, mae llawer yn cynnwys grwpiau o fenywod sydd wedi defnyddio gwasanaethau. Mae gan fforymau goroeswyr o’r fath yn aml (ond nid bob amser) gysylltiadau â gweithredu gan fenywod. Gellir cyfeirio atynt fel grwpiau goroeswyr, grwpiau ffocws neu grwpiau cynghori ac maent wedi’u sefydlu i weithio ochr yn ochr â’r prif fforwm rhyngasiantaethol i gynghori a chynnig sylwadau ar ei waith.

Mae’r gweithgarwch sy’n digwydd yng Nghymru’n debyg i’r hyn sy’n digwydd mewn rhannau eraill o’r DU ac yn fyd-eang. Mae’n cynnwys, ar ei fwyaf sylfaenol,

ymgynghori, hyd at, ar ei fwyaf cydradd ac ystyrlon, strategaethau ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a goroeswyr eraill sydd wedi profi camdriniaeth mewn polisïau a phrosesau penderfynu.

Mae enghreifftiau da iawn o ymgysylltu â goroeswyr yng Nghymru, gan gynnwys y gwaith i ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021). Roedd amcanion y strategaeth hon yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaethpwyd trwy'r adroddiad ymgysylltu â goroeswyr: *Are you listening and am I being heard?* (Mawrth 2016). Mae'r adolygiad llenyddiaeth, fodd bynnag, yn datgan pryderon ynglŷn ag ansawdd peth o'r gweithgarwch cyfredol ar ymgysylltu â goroeswyr. Mae'r rhain yn cynnwys symboleiddaeth; y teimlad bod yr ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio fel tacteg oedi, neu i gyfiawnhau penderfyniadau; gwahodd goroeswyr i gyfarfodydd yn hytrach na mynd ati i ymgysylltu o ddifri â hwy, a gwneud i oroeswyr deimlo eu bod wedi eu mewn ffordd nawddoglyd neu wedi eu llethu.

## 3. <u>Barn goroeswyr ar sut yr hoffent ymgysylltu â'r Llywodraeth.</u>

Mae profiad byw goroeswyr yn ganolog i ddatblygiad y fframwaith. Er mwyn cychwyn y broses hon rydym wedi ymgymryd â chyfnod o ymgynghori â goroeswyr a fydd yn parhau trwy gydol y broses ddatblygu.

Cysylltwyd â holl randdeiliaid VAWDASV Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017[1] i wahodd datganiadau o ddiddordeb i gymryd rhan yn y gwaith datblygu ac i alw am enghreifftiau o ymarfer gorau ac ymchwil sydd ar gael eisoes.

Mae grŵp amrywiol o oroeswyr o bob rhan o Gymru wedi cymryd rhan yn y gwaith hwn[2]. Roedd y goroeswyr a gyfrannodd wedi profi sawl math o drais a chamdriniaeth gan gynnwys trais rhywiol; camdriniaeth gorfforol ac emosiynol; camdriniaeth ariannol; ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli; anffurfio organau cenhedlu benywod; cam-fanteisio rhywiol a masnachu mewn pobl.

Roedd rhai goroeswyr y buom yn siarad â hwy yn ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol, roedd eraill yn ddefnyddwyr gwasanaeth diweddar ac nid oedd rhai wedi defnyddio gwasanaethau ers nifer o flynyddoedd ond roeddent yn dal i sôn am effaith y cam-drin ar eu bywydau.

Bu rhai rhanddeiliaid hefyd yn arwain gweithgarwch ymgysylltu ar ran Llywodraeth Cymru a chafwyd adborth ganddynt ar y materion a godwyd.

Nod y cyfarfodydd ymgysylltu hyn oedd:

- sicrhau bod lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed wrth ddatblygu'r fframwaith ymgysylltu cenedlaethol;
- casglu gwybodaeth am faterion, pryderon a safbwyntiau gan oroeswyr; a
- gweithredu fel sail i fframwaith mwy cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

[1] Yn Atodiad 2
[2] Yn atodiad 1

## 4. Themâu sy'n gysylltiedig â'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Isod rydym yn cyflwyno'r themâu a ddaeth i'r amlwg. Mae'r themâu'n ymwneud yn benodol â **sut** y gallai Llywodraeth Cymru weithio'n well â goroeswyr, a'r prosesau ymgysylltu.

Roedd yn anorfod yn ystod y gwaith ymgysylltu bod goroeswyr wedi rhannu eu pryderon pennaf am y prosesau a'r systemau roeddent ynghlwm wrthynt o ganlyniad i'r gamdriniaeth roeddent wedi'i phrofi. Disgrifir y rhain yn atodiad 3. Bu goroeswyr yn rhannu storïau o drallod mawr ac roedd llawer yn emosiynol iawn wrth iddynt rannu eu profiadau â ni. Roedd hyn yn debyg iawn i'r mathau o adborth a gafwyd yn ystod gwaith ymgysylltu blaenorol ac mae wedi arwain at waith ychwanegol ar draws Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner.[3]

Roedd y goroeswyr a'r rhanddeiliaid i gyd yn teimlo y dylai lleisiau a phrofiadau goroeswyr fod yn ganolog i ddatblygiad polisïau, dylai fod wedi'i gynllunio a bod yn ystyrlon, a dylai fod yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf.

### 4.1. Pwysigrwydd grwpiau cymunedol

Roedd sefyllfa grŵp yn cael ei weld fel rhywbeth sylfaenol i helpu goroeswyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o derminoleg gysylltiedig, gwasanaethau, dulliau eraill o ddarparu cymorth, a strwythurau. Yn achos y model Ymgysylltu â Goroeswyr ac Addysg (sy'n cael ei redeg gan Gymorth i Ferched Cymru) lle mae goroeswyr yn cymryd rhan weithredol mewn cyfathrebu ac addysg, roedd y grŵp yn cael ei weld hefyd fel cyfle ar gyfer ôl-drafodaeth a pharatoi, a phan fydd angen fel rhwydwaith cymorth.

Roedd y sefyllfa grŵp yn helpu aelodau i baratoi i eiriol drostynt eu hunain ac eraill, i gynnig addysg a hefyd cymorth yn dilyn gwaith ymgysylltu. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol gan fod achosion o ysgogi neu ail drawma yn dal i ddigwydd wrth wynebu amgylcheddau heriol (fel hyfforddiant lle mae safbwyntiau cryf yn cael eu rhannu), waeth pa mor bell yn ôl roedd y cam-drin wedi digwydd.

Cyfeiriodd rhai goroeswyr hefyd at y cyfleodd a oedd yn dod yn sgil bod yn rhan o grŵp, fel cymryd rhan mewn gwaith cyfryngau a mathau cyffrous eraill o waith.

Soniodd rhai goroeswyr am bwysigrwydd grwpiau cymorth i fagu hyder i siarad dros eu hunain, ac ar ran eraill.

### 4.2. Rôl y "trefnydd"

Cyfeiriodd rhai goroeswyr at y cymorth a oedd yn cael ei gynnig gan drefnwyr grwpiau goroeswyr. Cyfeiriwyd at y trefnyddion hyn fel mudiadau trydydd sector a'u rôl i drefnu'r grŵp a'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant a chymorth yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyfranogwyr. Mewn rhai achosion roedd y trefnydd wedi cynorthwyo i baratoi cyflwyniadau cynadleddau ac areithiau yr oedd y goroeswr wedi'u traddodi mewn digwyddiadau cyhoeddus. Ym mhob achos, soniodd goroeswyr am y cynnydd mewn hyder a gwahanol sgiliau a ddysgwyd o ganlyniad i hyn.

3 Are you listening and am I being heard? Mawrth 2016

Roedd goroeswyr yn cydnabod hefyd y cymorth a gafwyd gan y mudiadau trydydd sector hyn a chafwyd enghreifftiau o'r gofal a'r ymroddiad a ddangoswyd, yn enwedig pan oedd yr angen amdanynt ar ei fwyaf. Cyfeiriodd rhai at weithwyr cymorth a allai synhwyro bod angen ymweliad ychwanegol arnynt ac am y berthynas, y parch a'r ymddiriedaeth a ddatblygodd dros amser.

### 4.3. Yr angen am gymorth / cwnsela

Roedd y rhai a oedd yn gweithio yn y sector trais rhywiol yn ymwybodol iawn na allent bob amser ddarparu cymorth pan oedd ei angen. Roeddent yn teimlo hefyd oherwydd y lefelau uwch o sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â thrais rhywiol a cham-drin rhywiol hanesyddol, y dylid cael cynlluniau ar waith i helpu'r rhai rydym yn ceisio ymgysylltu â hwy.

### 4.4. Gwneud penderfyniadau (dealltwriaeth)

Dywedodd llawer o oroeswyr nad oeddent yn deall y prosesau penderfynu a ddefnyddir gan y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill, na sut y byddent yn gallu cyfrannu atynt. Roeddent am weld ymgynghoriadau'n cael eu cynllunio, yn hytrach na bod yn rhywbeth ad hoc, a mynegwyd rhwystredigaeth am mai yn anaml yn unig yr oeddent yn cael adborth ar yr hyn a oedd wedi'u newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad, nac unrhyw fath o gysylltiad rheolaidd.

### 4.5. Modelau ymgysylltu

Roedd goroeswyr am gael cynnig ffyrdd niferus ac amgen o ymgysylltu, gan gynnwys cyfranogiad dienw ac ar-lein, a gallu dewis sut yr oeddent am gyfranogi. Awgrymwyd cyfryngau cymdeithasol fel dull defnyddiol.

Nododd y sector trais rhywiol, yn benodol, na ddylai unrhyw ymgysylltu fod yn ymarferiad ar un ffurf sy'n gorfod bod yn addas i bawb, a phwysleisiwyd pa mor unigryw yw'r sector. Hefyd, dywedwyd y byddai ffyrdd niferus o ymgysylltu yn ddefnyddiol hefyd i'r rhai sy'n siarad Saesneg fel ail iaith. Roedd rhai'n teimlo'n anghyfforddus wrth siarad Saesneg ond yn llawer mwy cyfforddus wrth ysgrifennu eu syniadau'n hytrach nac wrth siarad.

### 4.6. Cydnabyddiaeth ariannol

Mae rhai grwpiau cymunedol yn talu treuliau'r sawl sy'n cymryd rhan yn y grŵp. Mae goroeswyr eraill yn rhoi o'u hamser am ddim. Awgrymodd cynrychiolwyr gwasanaethau a goroeswyr y dylid cael cyllideb i dalu costau talu a chynhaliaeth rhesymol. Dylid hefyd ystyried gofal plant am nad oedd llawer yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd oherwydd cyfrifoldebau gofal.

### 4.7. Arweinyddiaeth weladwy

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at yr angen i ddangos ymrwymiad, ar y lefel uchaf wrth i uwch swyddogion a Gweinidogion fod yn fwy gweladwy i sicrhau fframwaith ymgysylltu mwy cynaliadwy a chyson.

### 4.8. Dilysrwydd

Mae rhai goroeswyr yn teimlo nad yw'r dulliau ymgysylltu cyfredol yn ddigon hyblyg i'w galluogi i rannu eu meddyliau fel yr hoffent. Neu, bod safbwyntiau a fynegir

mewn sesiynau ymgysylltu yn cael eu newid pan fyddant yn cael eu hysgrifennu neu'n dilyn cyflwyniadau i gyd-fynd â dull neu agenda benodedig.

### 4.9. Ymgysylltu fel gweithgarwch ychwanegol, yn hytrach na dull wedi'i sefydlu.

Mynegodd rhai goroeswyr bryder am fod ymgysylltu â goroeswyr yn aml yn cael ei weld fel "ychwanegiad" at ymarfer lleol. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys gwahoddiadau i gyfarfodydd fel rhywbeth untro, yn hytrach na bod cynrychiolwyr goroeswyr yn bresenoldeb parhaus. Dywedwyd hefyd eu bod wedi cael eu gwahodd yn aml i gyfrannu at waith, fel datblygu strategaethau, yn hwyr yn y broses ac mai anaml yr oeddent yn cael eu gwahodd ar ddechrau prosiectau.

### 4.10. Yr angen i ganolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar oroeswyr a pheidio â diystyru unrhyw faterion.

Datgelodd cyfraniadau gan fenywod sy'n geiswyr lloches y gydberthynas gymhleth rhwng camdriniaeth, mewnfudo a'r broses fewnfudo.

O gofio cymhlethdodau'r profiad o VAWDASV ynghyd â materion fel mewnfudo, a heriau eraill, fel cam-drin sylweddau, materion teuluol a materion plant, ni fyddai'n briodol i beidio â chynnwys unrhyw brofiad penodol mewn gwaith ymgysylltu. Mae cymhlethdod pellach yn cael ei gyflwyno pan fydd goroeswyr eisiau trafod pynciau datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli. Er mwyn sicrhau bod goroeswyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, mae'n bwysig nad yw materion maent yn dymuno eu trafod yn cael eu gwrthod am y rheswm hwn hwnnw.

Croesawodd goroeswyr ddatblygiad trefniadau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu. Soniodd llawer am eu parodrwydd i ymgysylltu ac eiriol ac addysgu drostynt eu hunain. Trwy gydol y broses ymgynghori roedd goroeswyr yn rhoi pwyslais arbennig ar eu rôl eu hunain i addysgu eraill, i godi ymwybyddiaeth a chynyddu gwybodaeth eu cymheiriaid, eu cydweithwyr a'r cyhoedd.

## 5. <u>Beth yw model ymgysylltu da?</u>

Mae'r mathau niferus o ymgysylltu â goroeswyr sydd wedi'u gweld yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys grwpiau ffocws, grwpiau sy'n helpu goroeswyr i eiriol drostynt eu hunain (y model SEEDs), grwpiau anffurfiol, ymgynghoriadau ysgrifenedig, cynadleddau a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol. Yn 2008, arweiniodd y prosiect Kafka Brigade yn Rhondda Cynon Taf at wella gwasanaethau i oroeswyr a'u teuluoedd, yn sgil dylanwad ymgysylltu cryf â rhanddeiliaid.

Canfu'r adolygiad llenyddiaeth (ynghyd â lleisiau goroeswyr) y dylai'r model i gynnwys pobl sydd fwyaf tebygol o lwyddo gael ei adael i esblygu ac i fod yn seiliedig ar ymgysylltu parhaus. Nodwedd allweddol yw ymrwymiad gwirioneddol i bwysigrwydd atebolrwydd goroeswyr. Dylai ymgysylltu hefyd gynnwys rhai ag anghenion cymhleth, aml-agwedd, dynion, pobl LGBT+, pobl hŷn a phlant a phobl ifanc.

Rydym wedi gwahodd adborth gan oroeswyr ar y modelau hyn yn ogystal â gwahodd syniadau ar sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi ymgysylltu â goroeswyr yn well i ddatblygu polisi cenedlaethol. Mae'r adborth hwn wedi cyfrannu at ddatblygu'r opsiynau a gyflwynir isod.

## 6. Pa waith newydd sydd ei angen i sicrhau ymgysylltu cryf â goroeswyr ar lefel Llywodraeth?

Mae lefelau ymgysylltu â goroeswyr ledled Cymru'n amrywio o brosesau ffurfiol, wedi'u hariannu'n dda, ymarfer sy'n datblygu ac sy'n addawol, gwaith anffurfiol ond cyson i ymgysylltu ad hoc i ddibenion penodol. Mae diben y gwaith hwn hefyd yn amrywiol iawn. Mewn rhai ardaloedd, mae grwpiau'n bodoli i gynorthwyo cymheiriaid, mewn eraill mae diben ymgysylltu'n benodol i rôl un mudiad; mae gan rai grwpiau nod i addysgu neu eiriol ar ran goroeswyr eraill.

Mae enghreifftiau o ymarfer da iawn i'w cael ar hyd a lled Cymru ac, fel rhan o ddatblygiad strategaethau lleol, mae cynnydd yn y gweithgarwch lleol i ymgysylltu â goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n ddealladwy bod pwyslais lleol neu ranbarthol mewn ymarfer o'r fath.

Heblaw am ymgynghoriad untro, nid oes proses genedlaethol i ymgysylltu â goroeswyr ar lefel Llywodraeth sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddatblygiad polisi'r Llywodraeth. Er bod cynrychiolydd o blith goroeswyr ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, dyma yw hyd a lled y cysylltiad uniongyrchol rhwng goroeswyr a pholisi cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu system Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr. Diben yr ymgysylltu hwn fydd dylanwadu ar y ffordd y mae polisïau'n cael eu datblygu ar lefel genedlaethol, i hysbysu'r Llywodraeth o faterion sy'n dod i'r amlwg lle mae angen ymateb polisi cenedlaethol, ac i hwyluso gweithgarwch allanol sy'n cael ei arwain gan oroeswyr. Pan yn bosibl dylai dull cenedlaethol adeiladu ar yr ymarfer da sy'n dod i'r amlwg yn lleol. Mae'r term "fframwaith" yn cael ei ddefnyddio am y tro i gydnabod y posibilrwydd y bydd angen sawl haen o ymgysylltu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal neu'n hwyluso ymgysylltu â goroeswyr gydag ymrwymiad gwirioneddol i bwysigrwydd atebolrwydd goroeswyr yn natblygiad polisïau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Bwrw ymlaen â system ar gyfer ymgysylltu cenedlaethol â goroeswyr.**

Mae'r adolygiad llenyddiaeth a'r ymgynghoriad yn awgrymu y bydd angen y canlynol ar unrhyw broses ymgysylltu:

1. Rhaid iddi fod yn un Cymru gyfan ac yn cynrychioli amrywiaeth, gwahaniaethau a daearyddiaeth y wlad.
2. Rhaid iddi fod yn ddigon eang ei chwmpas i alluogi adborth gwirioneddol ddilys.
3. Rhaid sicrhau na fydd yn gwneud y rhai sy'n cymryd rhan yn ddioddefwyr eto, rhaid bod yn ymwybodol o drawma ac osgoi achosi stigma i'r rhai sy'n cymryd rhan.

4. Rhaid sicrhau na fydd yn creu rhwystrau rhag cyfranogi oherwydd effeithiau tlodi, statws economaidd-gymdeithasol neu nodweddion a gwahaniaethau diwylliannol.
5. Dylid talu treuliau rhesymol.
6. Rhaid diogelu cyfrinachedd a statws dienw cyfranogwr yn unol â gweithdrefnau diogelu.
7. Dylid caniatáu ymgysylltu â goroeswyr mewn sawl ffurf.
8. Rhaid i ymgysylltu fod yn barhaus ac ni ddylai byth fod yn rhywbeth symbolaidd yn unig.
9. Dylai gwaith a strwythur ymgysylltu esblygu'n seiliedig ar adborth.

## 7. <u>Opsiynau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cynnwys mewn Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr</u>

Mae'r opsiynau canlynol yn cynnwys dulliau i alluogi goroeswyr i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau cenedlaethol, a dulliau a fydd yn galluogi goroeswyr i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nid yw'r rhain wedi'u cyflwyno fel opsiynau naill ai / neu, a gall fod yn briodol i fabwysiadu cyfuniad o fecanweithiau a chynllunio ar gyfer eu datblygu ymhellach. Gall yr opsiynau hyn hefyd fod yn sbardun i ddatblygu syniadau eraill.

### 7.1. Grwpiau cydweithrediad ymchwil yn seiliedig ar oroeswyr

Byddai grŵp cydweithrediad ymchwil thematig arbenigol yn seiliedig ar oroeswyr yn cael ei sefydlu i ganfod y materion hynny (sy'n gysylltiedig â'r thema) sydd o'r pwys mwyaf i oroeswyr, ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Byddai pob grŵp yn gweithredu ar delerau gorchwyl a gorffen am chwe mis i ddechrau. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddant yn cwmpasu materion sy'n gysylltiedig â'r thema, yn ystyried llenyddiaeth gysylltiedig, trefniadau ymarferol a phrofiad byw goroeswyr. Byddent wedyn yn rhannu eu canfyddiadau â'r Grŵp Cynghori VAWDASV. Byddai'r grŵp hefyd yn awgrymu sut y gellid prif ffrydio eu hargymhellion i waith y Llywodraeth.

Nod y grŵp cydweithrediad ymchwil yn seiliedig ar oroeswyr fyddai uno arbenigedd academaidd (sy'n gysylltiedig â phwnc/thema) â phrofiad byw a chyfraniadau ymarferol gan y rhai sy'n gweithio yn y maes. Mae'r model hwn yn adeiladu ar y cydweithrediad ymchwil yn seiliedig ar oroeswyr y cyfeiriwyd ato yn yr adolygiad llenyddiaeth.

Bydd angen cylch gorchwyl ac egwyddorion ymgysylltu eglur i sicrhau bod y cyfranwyr i gyd yn gyfforddus, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ychwanegu gwerth.

Fel peilot dechreuol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dwy thema (dau grŵp cydweithrediad ymchwil yn seiliedig ar oroeswyr) y flwyddyn. Bydd y themâu hyn yn cael eu dewis ar sail adborth gan oroeswyr a rhanddeiliaid.

**Buddiannau'r dull:**

Roedd goroeswyr yn hoffi'r dull hwn ac mae wedi'i seilio ar ymarfer da a amlygwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae'n cyfuno academia, profiad byw a gwybodaeth ymarferol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ymarfer cyfredol o'r fath yng Nghymru nac mewn rhannau eraill o'r DU. Bydd yn gyfle i ystyried yn fanwl unrhyw faterion

pwysig y gellir eu defnyddio i ddatblygu gwaith polisi sydd yr un mor fanwl a pherthnasol.

**Pryderon ynglŷn â'r dull:**

Nid yw'r goblygiadau o ran costau ac amserlenni pob swyddogaeth gorchwyl a gorffen wedi cael eu profi.

Gallai'r opsiwn hwn gael effaith gref ar ddatblygiad polisïau Llywodraeth Cymru ond efallai na fyddai'n hybu rôl goroeswyr o ran addysgu'r gymuned. Gyda hyn mewn golwg, gallai addysgu'r gymuned fod yn un o'r themâu.

### 7.2. Defnyddio mudiadau trydydd sector i hwyluso lleisiau goroeswyr, trwy broses gytunedig a strwythuredig.

Byddai hyn yn adeiladu ar ddulliau presennol ledled Cymru sy'n cynnwys grwpiau goroeswyr ffurfiol ac anffurfiol sy'n cael eu hwyluso gan ddarparwyr gwasanaeth arbenigol lleol. Gallai'r dull hwn gael ei ymestyn i gynnwys grwpiau goroeswyr ym mhob rhanbarth o Gymru. Gallai olygu cost i Lywodraeth Cymru a / neu beth gwaith ag ymddiriedolaethau dyrannu grantiau.

**Buddiannau'r dull:**

Byddai dull o'r fath yn cryfhau ymgysylltu cymunedol ac yn cynnig cymorth gan gymheiriaid a denu cefnogaeth gref ymhlith goroeswyr. Byddai hefyd yn fecanwaith a fyddai'n galluogi goroeswyr i eiriol dros eu hunain a chynnig cyfleoedd addysgol yn eu cymunedau.

**Pryderon ynglŷn â'r dull:**

Nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cael dylanwad arbennig o gryf ar gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ac mae hefyd yn bodoli'n gwbl ar wahân i ymarfer a datblygiad ymarfer. Byddai'r angen am lwybr cenedlaethol cryfach ar gyfer ymgysylltiad polisi sydd wedi'i ymwreiddio'n ffurfiol o fewn strwythurau penderfynu Llywodraeth Cymru yn parhau.

### 7.3. Datblygiad grwpiau materion penodol

Mae angen i fforymau goroeswyr oresgyn a rheoli nifer o heriau ymarferol a moesegol. Mae'r prif faterion y mae angen eu hystyried yn cynnwys diogelwch a chyfrinachedd y goroeswyr. Dylai cyfansoddiad y grŵp fod yn ddigon cynrychioliadol i fod ag amrywiaeth a gwahaniaethau ymhlith yr aelodau, yn ogystal â thrafodaethau sy'n rhoi sylw i faterion diwylliannol. Nid yw goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn grŵp unffurf a gall eu profiad o gamdriniaeth fod yn wahanol iawn. Oherwydd hyn, rhaid cadw profiadau cyfunol, demograffeg a chydnabyddiaeth o effaith trawma mewn cof wrth ddod â goroeswyr ynghyd.

Roedd rhanddeiliaid yn y sector trais rhywiol, yn benodol, yn teimlo'n gryf y byddai grŵp penodol ar gyfer rhai sydd wedi profi trais rhywiol yn ffordd werthfawr o sicrhau bod eu lleisiau'n cyfrannu at waith y Llywodraeth. Roedd hyn yn cael ei ffafrio'n fwy nag unrhyw ddull cyffredinol neu ddull yn seiliedig ar bwnc penodol.

Gallai grwpiau sy'n seiliedig ar faterion penodol gael eu hwyluso trwy brif ddarparwyr cenedlaethol sy'n arbenigo mewn materion penodol ac sy'n adrodd yn rheolaidd i

Lywodraeth Cymru. Rydym yn ymwybodol bod rhai darparwyr gwasanaethau trais rhywiol yn gall dod â defnyddwyr gwasanaeth at ei gilydd yn effeithiol iawn. Mae'r grwpiau hyn wedi gweithio â Llywodraeth Cymru ar brosiectau ymgynghori blaenorol.

**Buddiannau'r dull**

Byddai'r dull hwn yn cynnwys darparwyr arbenigol, a byddai'n seiliedig ar y berthynas ardderchog bresennol rhwng y mudiadau hyn a'u defnyddwyr gwasanaeth.

**Pryderon ynglŷn â'r dull**

Er y byddi'n ffurfioli gwaith ymgysylltu i ddibenion datblygu polisïau, nid yw'r dull hwn yn mynd i wneud gwahaniaeth sylweddol o'i gymharu â'r ymarfer presennol. Dylai gwasanaethau arbenigol gael eu harwain gan eu grŵp cleientiaid eisoes a dylent fod yn ymwybodol o'r goblygiadau i ymarfer.

### 7.4. Cyfleoedd digidol

Cyfeiriodd rhai goroeswyr hefyd at ddefnyddioldeb fforymau ar-lein i rannu eu barn. Soniwyd hefyd am negesfyrddau a fforymau trafod fel opsiynau. Gellid defnyddio fforymau digidol hefyd i ategu opsiynau eraill a nodwyd yn y papur hwn.

**Buddiannau'r dull**

Byddai defnyddio platfformau digidol yn galluogi'r rhai nad ydynt wedi datgelu eu profiadau i gyfranogi ac maent yn ffordd arall o ymgysylltu i'r sawl nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad mewn grŵp ac sy'n well ganddynt ysgrifennu. Byddai cysylltu â sgyrsiau gwe Byw Heb Ofn yn bwysig.

**Pryderon ynglŷn â'r dull**

Byddai'n rhaid monitro fforymau ar-lein i ddiogelu llesiant a diogelwch goroeswyr, ac i reoli datgeliadau'n briodol.

### 7.5. Eiriolaeth gymunedol a arweinir gan oroeswyr.

Roedd llawer o oroeswyr yn teimlo bod ganddynt rôl allweddol i godi ymwybyddiaeth, ac mewn addysgu a chyfathrebu a byddent yn hoffi edrych ar ffordd o gyflawni hynny yng Nghymru trwy ddull parhaus a strwythuredig. Byddai cymorth parhaus i adnabod y perygl o stigma a thrawma yn sgil digwyddiadau a all eu sbarduno yn gwbl hanfodol.

Byddai hyn yn integreiddio'n dda â gwaith ymgyrchu a chyfathrebu. Gallai'r gwaith hwn fod yn amrywiol iawn a gallai gynnwys, er enghraifft, grwpiau, corau, theatr, sgyrsiau a chyflwyniadau a digwyddiadau dysgu. Gallai hefyd gynnwys gweithgarwch digidol.

Byddai'r gwaith eiriolaeth ac addysgol hwn, fwy na thebyg, yn cael ei hwyluso trwy fudiadau cymunedol, a fyddai'n bidio i fod yn gyfrifol am brosiectau lleol a fyddai'n cael eu harwain neu eu cyflwyno mewn partneriaeth â goroeswyr. Gallai gynnwys grwpiau goroeswyr ffurfiol neu grwpiau llai ffurfiol, sy'n annhebygol o fod wedi bod yn rhan o weithgarwch y Llywodraeth o'r blaen.

Byddai'r broses hon yn cael ei rheoli o fewn cyd-destun cenedlaethol sy'n amlinellu safonau ymgysylltu sy'n gysylltiedig â llesiant a diogelu, grymuso, hunan eiriolaeth a chynaliadwyedd.

### Buddiannau'r dull

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd i ymgysylltu â goroeswyr. Mae'n cynnig cyfleodd cyffredinol i ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob math o gefndir ac sydd wedi cael llawer o brofiadau, ac mae'n creu cyfleoedd i'w galluogi i rannu eu profiadau byw ac i eiriol ar eu rhan eu hunain.

### Pryderon ynglŷn â'r dull

Gallai'r angen i reoli grantiau olygu bod angen llawer o adnoddau ar y dull hwn a gallai fod yn feichus.

## 8. Crynodeb

Nid oes un dull wedi'i brofi ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr VAWDASV mewn gwaith polisi cenedlaethol. Rydym am osgoi ymyriadau ad-hoc, symbolaidd ond rydym yn cydnabod y gall gymryd amser i leihau gwaith ad hoc. Dylai'r ffordd y mae ymgysylltu â goroeswyr yn digwydd esblygu a chael ei ffurfio gan leisiau goroeswyr.

Pa bynnag ffordd a ddefnyddir i gynnwys goroeswyr, y materion allweddol sy'n rhaid eu hystyried yw cyfrinachedd a diogelwch goroeswyr a'u teuluoedd, gan sicrhau bod cyfansoddiad y grŵp yn gynrychioliadol, bod yr angen am amrywiaeth a gwahaniaeth o fewn y grŵp yn cael ei gadw mewn cof, ei fod yn rhoi sylw i faterion diwylliannol ac yn cynnwys merched o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, yn talu treuliau, yn osgoi cam-fanteisio, yn darparu cymorth a hyfforddiant, ac yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer trawma a stigma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i bwysigrwydd ymgysylltu â goroeswyr i oleuo a ffurfio ein gwaith. Mae rôl goroeswyr yn natblygiad gwaith polisi wedi bod yn amhrisiadwy ac rydym yn benderfynol o barhau i gydweithio'n glos â goroeswyr ledled Cymru i ddatblygu fframwaith cenedlaethol cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. **Rydym yn croesawu eu barn hwy a rhai'r mudiadau hynny sy'n gweithio â goroeswyr ar y cwestiynau canlynol:**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. Beth yw eich barn ar yr opsiynau a gynigir yn y ddogfen hon fel dulliau i fwrw ymlaen â strategaeth genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr?

*Pa opsiynau a ffefrir gennych a pham?  Sut fyddech chi'n cyfuno'r opsiynau?*

2. Pa drefniadau ychwanegol a hoffech chi weld Llywodraeth Cymru yn eu hystyried ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr i ddibenion datblygu polisi?

*A oes modelau ymarfer eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried? Pa opsiynau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?*

3. Ym mha ffordd hoffech chi weld goroeswyr yn ymgymryd gweithgarwch cyfathrebu, eiriolaeth ac addysg o fewn rhanbarthau neu awdurdodau lleol?

*A oes modelau ymarfer eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried? Pa opsiynau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?*

***Gofynnir i chi anfon ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn erbyn 12pm ar 3 Mai 2018 i*** VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@gov.wales

**Diolch yn fawr**

Diolch i’r mudiadau a’r grwpiau canlynol sydd wedi rhoi o’u hamser i gyfrannu at ddatblygu’r ddogfen hon

Grŵp Cymorth Goroeswyr Benywaidd, Caerfyrddin

Bawso Abertawe

Bawso Wrecsam

Cymru Ddiogelach

Rhieni Sengl Caerdydd a’r Fro

Goroeswyr Unigol

RASAC

Grŵp SEED Cymorth i Ferched Cymru

Cam wrth Gam

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Dewis Choice, Prifysgol Aberystwyth

Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan

The Survivors Trust

Cymorth i Ferched Nedd Port Talbot ac Afan (Siop un stop)

## Atodiad 1: Gwybodaeth am Gyfranogwyr

Fel rhan o’n gweithgarwch ymgysylltu, datblygwyd taflen wybodaeth am gyfranogwyr i gasglu data dienw i ddangos oedran y rhai rydym wedi eu cyrraedd, eu rhyw, eu tarddiad ethnig, eu hawdurdod lleol, eu cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw anabledd. Roedd rhai cyfranogwyr wedi dewis peidio â chwblhau’r ffurflenni hyn, neu wedi eu cwblhau’n rhannol. Oherwydd hyn dim ond trosolwg a geir yma.

Cyrhaeddwyd dros 60 o gyfranogwyr fel rhan o’n gweithgarwch ymgysylltu. Roeddent i gyd dros 18 oed gyda rhai dros 65.

Roedd tua 50% o’r cyfranogwyr yn dod o’r tu allan i Gymru neu’r DU yn wreiddiol. Roedd tarddiad y cyfranogwyr yn cynnwys: Albania, Irac, Palestina/Iorddonen; Pacistan; Kenya; Gwlad Pwyl; Portiwgal; yr Aifft; Bangladesh; Sri Lanka a Nigeria.

Roedd y cyfranogwyr i gyd yn fenywod. Roedd mudiadau sy’n gweithio â dynion wedi’u cynnwys yn yr ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cymorth. Yn anffodus nid ydym wedi gallu siarad yn uniongyrchol â goroeswyr gwrywaidd am nad oedd yr un wedi cysylltu â ni yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Byddwn yn parhau i ymdrechu i gynnwys dynion yn ystod gweddill y cyfnod ymgynghori.

**Atodiad 2: Gohebiaeth wreiddiol at randdeiliaid**

Annwyl randdeiliad VAWDASV

Mae’r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 - 2021 yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol cynaliadwy ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr i sicrhau bod anghenion a phrofiadau goroeswyr y materion hyn yn hysbys a’u bod yn sail i ddatblygu a chyflawni deddfwriaeth, polisïau a strategaethau sy’n gysylltiedig â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Llywodraeth Cymru yn cychwyn ar y gwaith cychwynnol i ddatblygu’r fframwaith hwn.

Mae goroeswyr sydd wedi bod yn gysylltiedig â gwaith y Llywodraeth hyd yma yn bendant o’r farn na ddylai unrhyw fath o ymgysylltu â hwy fod yn rhywbeth symbolaidd yn unig a bod yn rhaid iddo fod yn rhan o ddeialog barhaus fel y bydd modd iddynt wybod sut y mae eu barn wedi dylanwadu ar waith neu beidio.

Roedd goroeswyr o’r farn hefyd bod ganddynt sawl rôl i’w chwarae o ran ymgysylltu â gwaith y Llywodraeth. Nid yn unig y mae eu safbwyntiau’n hanfodol o ran arwain datblygiad polisïau ond hefyd bod ganddynt leisiau cryf i’w galluogi i ddatblygu gwaith y Llywodraeth, yn enwedig gwaith cyfathrebu, hyfforddiant ac addysg. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod effaith a chwmpas ymgyrchoedd yn cael eu cryfhau pan fyddant yn digwydd ochr yn ochr â gweithgarwch llawr gwlad a chymunedol.

Ein nod cyntaf ar gyfer y fframwaith, felly yw bod sicrhau ganddo ddau ddiben:

1. Cynnig proses ffurfiol i alluogi goroeswyr i ddatblygu, effeithio a dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
2. Sicrhau bod goroeswyr yn gallu eiriol a siarad drostynt eu hunain fel rhan o weithgarwch cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

Rydym yn gobeithio y bydd y dibenion hyn yn esblygu wrth i ni ymgysylltu ymhellach ar yr hyn y gall y fframwaith ei wneud a’i gyflawni.

Rydym am greu fframwaith mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o oroeswyr, tystion ac eraill a effeithir, gan gynnwys cynrychiolaeth ar draws nodweddion gwarchodedig a rhai ag anghenion cymhleth. Rydym hefyd eisiau sicrhau ein bod yn meithrin cysylltiadau ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys rhai mewn cymunedau gwledig a threfol a rhaid sydd wedi ac nad ydynt erioed wedi defnyddio gwasanaethau.

Er mwyn dechrau cynllunio hyn, mae’n bwysig ei fod yn cadw gwaith ymgysylltu â thystiolaeth bresennol sy’n gysylltiedig ag ymarfer da mewn cof. Rydym wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth i sicrhau bod y dull a fabwysiedir gennym yn seiliedig ar dystiolaeth ond hefyd rydym eisiau adeiladu ar yr ymarfer cryf a’r ymgysylltu sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru. O ganlyniad, byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu’r wybodaeth ganlynol â ni:

- Grwpiau / fforymau goroeswyr sy’n weithredol ar hyn o bryd yn eich ardal chi (gyda manylion cyswllt).
- Unrhyw gyhoeddiadau a gyhoeddwyd gan grwpiau neu fforymau goroeswyr yn eich ardal.
- Unrhyw ymchwil ehangach neu adroddiadau y credwch a allai gyfrannu at y gwaith datblygu.
- Unrhyw faterion pwysig yr hoffech sicrhau ein bod yn eu hystyried wrth gynllunio’r gwaith.

Hoffem hefyd eich cynnwys chi yn y prosiect ei hun. Os ydych chi’n gweithio â rhai sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mewn unrhyw ffordd, ac a hoffai helpu i ddatblygu’r fframwaith â ni, cysylltwch â ni yn VAWDASV.LlywodraethCymru-WelshGovernment@gov.wales. Rydym yn gobeithio cynnal digwyddiadau ymgysylltu yn ystod y chwe mis nesaf ond byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu anffurfiol ac ymweliadau ar hyd a lled y wlad.

Yn ddiweddarach yn yr hydref rydym yn gobeithio hysbysebu cronfa y gall gwasanaethau lleol wneud cais iddi i gynnal gweithgarwch yn y gymuned i helpu i ledaenu negeseuon ein hymgyrch genedlaethol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gweithio â goroeswyr i’w hwyluso i rannu eu storïau eu hunain, i addysgu eu cymheiriaid ac aelodau’r gymuned neu godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn dilyn ond efallai yr hoffech feddwl a allai’r gronfa gynnig cyfleoedd i’r grŵp goroeswyr yr ydych yn ei redeg neu’n gweithio ag ef.

Gofynnwn i chi anfon unrhyw wybodaeth atom erbyn 15 Medi.

Cofion gorau,

Tîm VAWDASV

**Atodiad 3: Themâu sy'n gysylltiedig â phrofiadau byw goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

**1. Defnyddio gwasanaethau / lloches**

Codwyd hyn ym mhob cyfarfod. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys methu cael gwasanaeth pan oedd angen amdano a'r gallu i gael gafael ar wasanaeth os oedd y goroeswr yn newid lleoliad. Dywedodd rhai goroeswyr bod penderfyniad wedi'i wneud eu bod yn ddigon da i adael lloches i wneud lle i eraill mewn angen. Er bod help gyda llety ar gael, roeddent yn aml yn teimlo y byddant wedi elwa trwy aros yn y lloches yn hwy cyn cael eu hannog i symud ymlaen. Dywedodd rhai fod hyn yn dwysau teimladau o arwahanrwydd. Gallai iaith fod yn rhwystr, yn enwedig i fenywod a oedd yn geiswyr lloches / ffoaduriaid. Nodwyd y defnydd posibl o linell iaith ond dywedwyd fod angen trefnu apwyntiadau ymlaen llaw a bod hynny'n gallu golygu oedi hir cyn cael eu gweld. Cafwyd galwad i sicrhau bod ymgysylltu'n ystyried materion iaith ar y cychwyn.

Roedd cost ac anhawster cael mynediad at drafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn gwneud i rai goroeswyr teimlo eu bod wedi'u hynysu.

Mynegodd y sector trais rhywiol bryderon am amseroedd aros cyn cael sesiynau cwsnela, ac am amseroldeb y cymorth.

**2. Materion economaidd**

Tynnwyd sylw at bwysau ac ansicrwydd economaidd dro ar ôl tro. Cafodd cam-drin ariannol yn ogystal ag anawsterau ariannol yn dilyn perthynas gamdriniol eu crybwyll.

**3. Ynysu**

Crybwyllwyd y thema hon wrth brofi camdriniaeth neu drais a hefyd ar ei ôl. Gallai'r teimladau o fod yn ynysig a oedd yn gysylltiedig â lleoliad gynyddu pan fyddai datgeliad yn golygu bod pawb mewn pentref bychan, er enghraifft, yn gwybod am y cam-drin neu'r trais. Efallai na allai dioddefwyr yn y sector trais rhywiol drafod eu sefyllfa mewn sesiwn gwnsela os nad yw eu hachos wedi ei glywed mewn llys eto. Soniwyd hefyd am gysylltiadau band eang annigonol fel problem wrth geisio canfod gwybodaeth a chael gafael ar gymorth.

**4. Sefyllfa ddaearyddol**

Roedd menywod yn y Gogledd, yn fwyaf penodol, wedi gorfod defnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus, i gyrraedd y cyfarfod ac i fanteisio ar wasanaeth. Soniodd rhai am gael eu cartrefu y tu allan i ddalgylch yr ysgol a bod hynny wedyn yn ychwanegu at y pwysau ariannol sydd arnynt trwy orfod talu am drafnidiaeth ysgol i oedolion a phlant**.**

**5. Y System Cyfiawnder Teuluol**

Cafodd hyn ei grybwyll trwy ymgysylltu â goroeswyr a oedd yn defnyddio gwasanaeth a thrwy gysylltiadau â rhieni sengl. Roeddent yn teimlo nad oedd gan y llysoedd teulu ddigon o ddealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar y rhiant nad oedd yn cam-drin, na'r effaith ar y plant. Dywedodd bawb â oedd wedi cael profiad o

lysoedd teulu, roedd y cyflawnwr yn aml, hyd yn oed ar ôl euogfarn, yng ngolwg y llysoedd teulu ac o ran cyswllt â'r plentyn a chystodaeth, yn cael eu weld fel rhiant addas. Roedd y pwyntiau a godwyd yn y maes hwn yn ymwneud â'r angen am hyfforddiant ar ymdrin ag achosion sensitif ynghyd â'r angen am sensitifrwydd o ran amserlenni gwrandawiadau. Roedd cyswllt a throsglwyddo plant hefyd yn achos pryder gan eu bod yn gallu bod yn gyfle i barhau ag ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi. Cafwyd galwadau hefyd am well trefniadau i rannu gwybodaeth. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am gymorth i ddatblygu strategaethau ymdopi yn ystod trosglwyddo â'r rhiant sy'n cam-drin. Soniodd llawer o oroeswyr am oblygiadau diogelwch yn ystod achosion llys a theimladau o bryder wrth orfod wynebu'r cyflawnwr.

**6. Y System Gyfiawnder**

Tynnodd rhanddeiliaid yn y sector trais rhywiol sylw at faterion penodol yn ymwneud â'r sefyllfa gyfreithiol o ran trafod eu hachos, hyd yn oed mewn sesiynau cwnsela cyfrinachol. Roedd y sector trais rhywiol am gael cwnsela a oedd yn amserol er mwyn osgoi'r posibilrwydd o broblemau pellach. Mewn lleoliadau eraill, roedd llawer yn teimlo bod y system gyfiawnder wedi eu gadael i lawr a bod angen mwy o bwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr / goroeswr a chymorth ar eu cyfer.

**7. Statws/ Stigma /Dim mynediad at gronfeydd cyhoeddus**

Tynnwyd sylw at hyn yn ystod y ddau gyfarfod â Bawso lle bu menywod yn sôn am yr anhawster wrth geisio cael mynediad at wasanaethau, addysg a hyfforddiant. Mynegwyd rhwystredigaeth ganddynt am nad oeddent yn cael amserlen sefydlog i glywed am statws eu cais am Loches.

**8. Trawma**

Roedd hwn yn fater amlwg iawn wrth gwrdd â goroeswyr masnachu mewn pobl / caethwasiaeth a'r sector Trais Rhywiol. Nid oedd dioddefwyr (am resymau cyfreithiol) yn gallu trafod eu sefyllfa nes bod eu hachos wedi cael ei glywed. Hoffai goroeswyr gael cwnsela trawma arbenigol ar unwaith.

**9. Cyflawnwyr**

Roedd rhai goroeswyr y buom yn siarad â hwy'n teimlo eu bod wedi cael eu gadael i lawr gan ymyriadau a oedd yn cael eu darparu i'r cyflawnwr ac roeddent yn teimlo nad oedd hyn yn newid ymddygiad y cyflawnwr.

**10. Addysg**

Soniodd llawer o oroeswyr am yr angen i addysgu plant a'r cyhoedd. Roeddent yn teimlo mai goroeswyr sydd yn y sefyllfa orau i gyfleu negeseuon a phan oedd pobl eraill yn siarad ar eu rhan roedd hynny'n eu dadrymuso. Buont yn sôn am ba mor amlwg yw anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a chysylltiadau â cham-drin domestig a'r angen i ddechrau addysgu'n gynnar.

Roedd sicrhau bod plant ifanc yn clywed am yr hyn sy'n cyfrif fel perthynas iach yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol, gyda materion fel cydsyniad yn cael ei gyflwyno pan yn briodol. Roedd angen i blant dioddefwyr / goroeswyr ddysgu ar y cyfle cyntaf

pan nad yw perthynas yn un iach. Er bod lefelau ymwybyddiaeth yn gwella, mae tipyn o waith i'w wneud o hyd.

Dywedodd dioddefwyr ymddygiad rheoli a gorfodi a cham-drin ariannol yn fwyaf penodol eu bod wedi dysgu am y termau hyn yn ystod cymorth a gynigiwyd iddynt a'u bod yn awr yn awyddus i sicrhau bod eraill yn sylweddoli os oeddent hwythau hefyd yn profi'r ymddygiadau hyn. Roedd mwyafrif y goroeswyr y buom yn siarad â hwy'n awyddus i adrodd eu storïau i godi ymwybyddiaeth, i herio agweddau ac, yn bwysicach fyth yn eu barn hwy, i atal camdriniaeth rhag digwydd yn y lle cyntaf.

**11. Cyfathrebu**

Nododd goroeswyr fod ymwybyddiaeth o wahanol fathau o gamdriniaeth yn uwch yn awr nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond roeddent yn teimlo bod gwaith i'w wneud o hyd. Roeddent yn teimlo y dylai goroeswyr fod yn ganolog i ddatblygu negeseuon ac roeddent yn awyddus i rannu eu storïau er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth / newid agweddau. Buont yn sôn am y stigma sy'n dal yn gysylltiedig â'r materion hyn gyda theimlad bod hwn yn dal i fod yn deimlad preifat / y tu ôl i ddrysau caeedig ac nad yw negeseuon sy'n portreadu'r goroeswyr yn helpu.

**Atodiad 4: Diffiniadau**

**Goroeswr:** Unigolyn sydd wedi profi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar ryw adeg yn eu gorffennol.

Termau eraill a ddefnyddir gan rai sydd â phrofiad o'r materion hyn yw "unigolyn â phrofiad byw" a "dioddefwr". Bydd pob unigolyn yn ffafrio'r term y maent yn gallu uniaethu fwyaf ag ef. Mae llawer o oroeswyr yn dewis peidio â defnyddio'r term "dioddefwr" am nad yw'n cyfleu'n briodol y cryfder a'r goroesi sy'n gysylltiedig â dianc rhag camdriniaeth.

**Ymgysylltu â goroeswyr:** Arfer gweithio ffurfiol sy'n galluogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau ac arwain elfennau cyfathrebu, addysg ac eiriolaeth i rannu eu harbenigedd eu hunain trwy brofiad.

**Cyfeiriadau**

Cowden, S. a Singh, G. (2007) 'The User: Friend, Foe or Fetish? A critical exploration of user involvement in health and social care', *Critical Social Policy*, Cyf. 27(1), tt. 5-23

Hodge, S., (2005) 'Participation, discourse and power: a case study in service user involvement', *Critical Social Policy,* Cyf. 25 (2), tt. 164-179

Hague, G., (2005) 'Domestic Violence Survivors' Forums in the UK: Experiments in Involving Abused Women in Domestic Violence Services and Policy-making', *Journal of Gender Studies*, Cyf. 14(3), tt. 191-203

Mullender, A. a Hague, G. (2005) 'Giving a voice to women survivors of domestic violence through recognition as a service user group', British Journal of Social Work, Cyf. 35, tt. 1321-1341